



UNED 6 – Arddodiaid

Gramadeg

Ystyr arddodiaid yw '*prepositions*' – geiriau bach sy'n dweud ble mae lleoliad rhywbeth (*the position of something*).

Yn yr uned yma, byddwn ni'n canolbwyntio ar '**yn**' (*in*) a '**dros**' (*over*).

yn	dros
ynddo i	drosto i
ynddot ti	drostot di
ynddo fe	drosto fe
ynddi hi	drosti hi
ynddon ni	droston ni
ynddoch chi	drostoch chi
ynddyn nhw	drostyn nhw

Adolygu

Rydych chi wedi dysgu am yr arddodiaid yma eisoes (*already*).

â	am	ar	at	i	wrth
(with)	(about)	(on)	(at)	(to)	(from)

Noder (Note): Er bod cyfeithiad Saesneg y gair o dan bob arddodiad Cymraeg uchod (*under each Welsh preposition above*), mae'r ystyr yn gallu bod yn wahanol (*the meaning can be different*) pan rydyn ni'n rhoi berf + arddodiad gyda'i gilydd.

e.e. **â** = *with*, ond
siarad â = *to talk to*.

Mae hyn achos bod bob iaith yn unigryw.



Gadewch i ni adolygu nhw :

mynd â	<i>to take</i>
siarad â	<i>to talk to</i>
cytuno â	<i>to agree with</i>
anghytuno â	<i>to disagree with</i>
cwrdd â	<i>to meet (with)</i>
dweud wrth	<i>to tell</i>
rhaid (i)	<i>must</i>
edrych ar	<i>to look at</i>

Rhowch rhain yn y bylchau cywir :

Darllenwch y darn yma, a llenwch y bylchau gydag un o'r arddodiaid yma:

â (x5)	iddyn	ar (x2)	wrtho	wrthyn
--------	-------	---------	-------	--------

Dw i'n mynd r plant i'r ysgol yn y car bob dydd.
Mae'r daith yn hanner awr. Dw i'n dweud nhw
bod rhaid nhw siarad fi -
dim radio, dim ffonau i neb!

Maen nhw'n anghytuno fi am y rheol yma, ond
maen nhw'n cytuno fi bod hanner awr yn amser
hir!

Dw i'n cwrdd nhw yn y prynhawn ac os ydyn
nhw'n dweud hanes y diwrnod i, maen nhw'n
cael edrych eu ffonau am y pum munud ola!
Maen nhw hefyd yn cael edrych eu gliniaduron
nhw ar ôl cyrraedd adre.



Gramadeg

Dych chi'n cofio?

**** Rydyn ni'n mynd at berson ond mynd i rywle ****

Pa mor aml rwyd ti'n mynd i'r dderbynfa?

Dw i byth yn mynd i'r dderbynfa.

Pa mor aml rwyd ti'n mynd i'r swyddfa?

Dw i'n mynd i'r swyddfa bob dydd.

Pa mor aml rwyd ti'n mynd at y deintydd?

Dw i'n mynd ati hi bob chwe mis.

Pa mor aml rwyd ti'n mynd at yr optegydd?

Dw i'n mynd ato fe bob naw mis.

Sgwrs

Darllenwch y sgwrs yma, a thanlinellwch yr arddodiaid.

A: Wyt ti'n edrych ymlaen at yr haf?

B: Ydw! 'Dyn ni'n mynd i Batagonia. Mae fy chwaer yn priodi.

A: Cofia fi atyn nhw! Wyt ti'n mynd i fod i ffwrdd o'r gwaith felly?

B: Wrth gwrs! Rhaid i fi golli tair wythnos o waith.

A: Wyt ti wedi gofyn i'r pennaeth eto?

B: Dw i'n mynd i ofyn iddi hi yfory. Rhaid i fi ysgrifennu e-bost ati hi.

A: Dewch draw aton ni ar ôl i chi ddod adre i ddangos eich lluniau chi i ni!

B: Gwnawn, wrth gwrs. Ac anfona i luniau atoch chi hefyd o Batagonia.

A: Gwych!



Yn

Oes diddordeb gyda ti yn y **gwaith**?

Nac oes, does dim diddordeb
gyda fi **ynddo fe**.

Oes diddordeb gyda ti yn y **swydd**?

Nac oes, does dim diddordeb
gyda fi **ynddi hi**.

Oes diddordeb gyda ti yn y
digwyddiadau?

Nac oes, does dim diddordeb
gyda fi **ynddyn nhw**.

Ymarfer Gwrando

Gwrando 



Ewch i'r ymarfer 'Gwrando' ar dudalen
'Canolradd – Uned 6' ar wefan Dysgu Cymraeg

Gwrandewch ar y ddeialog ac ysgrifennwch beth yw gwaith pawb:

Mrs Scott -

Toni -

Rhian -

Sarjant James -

Mrs Connor -

Mr Hughes -

Catrin -


Miss Clarke -

Gareth -



Ymarfer Gwrando a Gwyllo

Gwrando a
Gwyllo



Ewch i'r ymarfer 'Gwrando a Gwyllo' ar dudalen 'Canolradd – Uned 6' ar wefan Dysgu Cymraeg.

Nodwch dri pheth rydych chi wedi dysgu am Eadyth o'r fideo :

1.

2.

3.



Ateb gwahoddiad

Darllenwch y darnau yma a dewiswch beth sy'n cael ei ddisgrifio:

priodas pwyllgor pwysig parti ymddeol protest taith gerdded

1. Diolch am y gwahoddiad. Dw i'n edrych ymlaen at ddod. Gwelais i'r poster amdani hi yr wythnos diwetha. Dw i'n meddwl bod yr amgylchedd yn bwysig iawn. Faint o'r gloch mae'r bws yn gadael?

2. Wel, gobeithio byddi di'n mwynhau'r holl amser sbâr. Dw i'n siŵr bod hwyliau da arnat ti! Byddwn ni yna wrth gwrs, ond dw i ddim wedi dewis fy ngwisg ffansi eto! Cofia fi at Pat!



3. Dw i yn poeni am fy ffitrwydd, ond dw i ddim yn meddwl basai dringo i gopa'r Wyddfa dydd Sadwrn yma yn syniad da. Pob hwyl i chi!

4. Diolch am y gwahoddiad. Waw! Gwasanaeth yn yr eglwys gadeiriol! Chwilia i am het newydd dydd Sadwrn! Wnewch chi anfon eich rhestr anrhegion chi ata i?

5. Helô, Helen. Diolch, ond dim diolch. Mae digon o ddiflastod gyda fi yn fy ngwaith i bob dydd heb fynd i gyfarfodydd hir gyda'r hwyr hefyd. Dw i angen gorffwys, dim mwy o waith! Pob hwyl yn llwyddo i berswadio rhywun!

Deialogau

Chi ydy person B yn y deialogau yma. Sut ydych chi'n ateb person A?

A: Wyt ti eisiau dod i swper nos Fawrth nesa?

B:

A: Beth am nos Fercher 'te?

B:

A: Wyt ti eisiau dod i weld ffilm newydd Ioan Rhys?

B:

A: Yn y Plaza nos Iau.

B:

A: Wyt ti eisiau dod i gyfarfod i drafod problemau plastig?

B:

A: Mae tua deuddeg o bobl yn cwrdd unwaith y mis.

B:



Geirfa

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
eglwys gadeiriol	cathedral
taith/teithiau	trip/s
rheol/au	rule/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
amgylchedd	environment
adroddiad/au	report/s
deintydd	dentist
diflastod	boredom
ffitrwydd	fitness
gliniadur/on	laptop/s
optegydd/ion	optician/s

Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
gorffwys	to rest
trafod	to discuss